Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Stryd yr Angel**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 4WB**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ym Mhen-y-bont ar Ogwr ei chydlynu gan Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr. Yn 2020, ad-drefnwyd y bartneriaeth a sefydlodd fwrdd strategol ac is-grwpiau newydd. Mae partneriaid yn cynnwys Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr, Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr, Addysg Oedolion Cymru, Coleg Pen-y-bont a Dysgu Cymraeg Morgannwg. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth yn gweithio'n strategol gyda sylfaen ehangach o ddarparwyr eraill, gan gynnwys sefydliadau'r sector gwirfoddol, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Menter Bro Ogwr, Awen, ysgolion ac ystod o brosiectau cymunedol, yn ogystal â phartneriaid yn canolbwyntio ar iechyd a lles a chyflogadwyedd.

Mae'r partneriaid allweddol yn cyflwyno darpariaeth yn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cynigir y ddarpariaeth ar gyfer cyrsiau achredededig Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) gan Goleg Pen-y-bont yn bennaf, a ariennir trwy eu grant addysg bellach.

Cynigir darpariaeth mewn ystod eang o leoliadau, sy'n cynnwys campysau ac ystafelloedd hyfforddi'r coleg; llyfrgelloedd a lleoliadau diwylliannol; a lleoliadau cymunedol fel canolfannau cymunedol, hybiau cymunedol, ysgolion a chlwb rygbi.

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer 2021 yn dangos mai Pen-y-bont ar Ogwr yw'r 7$^{fed}$ ardal fwyaf o ran trwch y boblogaeth o'r 22 awdurdod lleol, gyda'r trydydd cynnydd mwyaf o ran y boblogaeth ledled Cymru. Mae'n dangos poblogaeth o ryw 145,500, sef cynnydd o 4.5% o'r cyfrifiad blaenorol. Mae tua 21% o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn 65 oed ac yn hŷn.

Mae ychydig dros 52% o'r trigolion dros 16 oed yn economaidd weithgar. Mae hyn fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 51.9%. Mae data StatsCymru ar gyfer 2021 yn dangos enillion wythnosol gros (canolrif) cyfartalog o £607.60, sy'n cymharu'n dda â ffigur Cymru, sef £563.70. Fodd bynnag, yn 2022, mae'r data'n dangos bod y cyflog wythnosol canolrifol wedi disgyn i £574.90, sy'n is na chanolrif Cymru, sef £598.10. O ganlyniad i hyn, mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi disgyn o dalu'r cyflog wythnosol canolrifol uchaf i'r 14$^{eg}$ lle yn safleoedd awdurdodau lleol. Y ganran ar gyfer y rhai y dosbarthwyd eu bod yn economaidd anweithgar yw 25.8%, sydd ychydig yn uwch na ffigur Cymru gyfan, sef 24.1%.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn gosod Pen-y-bont ar Ogwr fel un o'r ardaloedd awdurdodau lleol llai difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae llecynnau o amddifadedd cymharol uchel, gydag un ardal yn cael ei chategoreiddio'n ardal ag amddifadedd hirsefydlog, ac yn y 5$^{ed}$ safle o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos, i drigolion rhwng 16 a 64 oed, mai canran y rhai sydd â chymwysterau ar lefel 4 neu'n uwch yw 38.9%, sy'n gyson â chyfartaledd Cymru, sef 38.6%. Mae'r rhai sydd â chymwysterau ar lefel 3 neu'n uwch ychydig o dan gyfartaledd Cymru. Mae gan 73.7% o'r boblogaeth gymwysterau ar lefel 2 neu'n uwch, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 75.3%. Canran y rhai sydd â chymwysterau ar lefel 1 neu'n uwch yw 83.4%, sydd ychydig yn is na'r

cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 85.8%. Canran y bobl heb unrhyw gymwysterau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw 9.6%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 8.3%.

Mae bron holl drigolion Pen-y-bont ar Ogwr o gefndir ethnig gwyn (95.6%) tra bod 4.4% o gefndir ethnig pobl ddu, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol. Yn 2021, mae data'r cyfrifiad yn dangos mai canran y siaradwyr Cymraeg sy'n dair oed neu'n hŷn oedd 17.8%. Fodd bynnag, yn 2022, mae'r data'n dangos mai canran y siaradwyr Cymraeg sy'n dair oed neu'n hŷn yw 18.3 y cant, sy'n gynnydd bach ar y flwyddyn flaenorol.

Niferoedd y dysgwyr yn 2021-22 ar gyfer y bartneriaeth oedd 964. Nifer y staff sy'n ymwneud â dysgu oedolion yn y gymuned ar draws y bartneriaeth yw 33.

## Crynodeb

Ar draws Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu. Maent yn dysgu ac yn cymhwyso medrau newydd yn ogystal â datblygu hyder a chymhelliant. Mae llawer o ddysgwyr yn gwella eu cyfleoedd cyflogaeth ac yn elwa ar y rhyngweithio cymdeithasol yn eu dosbarthiadau. Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu medrau bywyd, ac mae eu dysgu yn gwella'u mwynhad o fywyd. Mae mwyafrif y dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u nodau a'u targedau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos agweddau da iawn at ddysgu ac yn barchus at bobl eraill a'u lles. Mae darparwyr yn gofyn i ddysgwyr am eu profiadau yn rheolaidd ac yn ymateb mewn ffordd amserol i'w hawgrymiadau.

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig ystod ddefnyddiol o gyrsiau yn seiliedig ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sef medrau llythrennedd, rhifedd a digidol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE). Nid yw'r bartneriaeth yn cynnig cyrsiau i wella llythrennedd siaradwyr Cymraeg neu gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r bartneriaeth yn awyddus i gynnig cyrsiau diddordeb personol, ond mae heriau o ran recriwtio athrawon yn gwneud hyn yn anodd ar hyn o bryd.

Mae tiwtoriaid yn meddu ar gymwysterau da, ac maent yn wybodus am eu pynciau. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio eu sesiynau'n dda. Maent yn ystyried diddordebau eu dysgwyr ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i helpu dysgwyr unigol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn effeithiol. Maent yn defnyddio ystod eang o systemau asesu, adborth, olrhain a monitro i sicrhau eu bod yn deall cynnydd ac anghenion dysgwyr.

Mae'r bartneriaeth yn darparu ystod o gyngor, arweiniad a chymorth diduedd i helpu dysgwyr i ddilyn y trywydd iawn a gwneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae partneriaid ym Mhartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Mae eu gwerthusiad o'r ddarpariaeth yn agored a gonest ac mae ffocws clir ar gyfle a phrofiadau cyfartal. Mae'r bartneriaeth yn cynnig datblygiad proffesiynol rheolaidd i'w thiwtoriaid i'w helpu i gadw eu harferion yn gyfoes trwy ystod o ddulliau, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio'i ffrydiau cyllid yn dda i leihau dyblygu a chefnogi dyheadau dysgwyr.

## Argymhellion

A1 Cryfhau systemau gwybodaeth reoli i sicrhau bod y bartneriaeth yn gallu olrhain, monitro a sicrhau ansawdd cynnydd dysgwyr yn effeithiol ar draws y bartneriaeth

A2 Sicrhau bod strategaethau marchnata yn helpu darpar ddysgwyr i gael trosolwg o gynnig cyrsiau a llwybrau dilyniant y bartneriaeth

A3 Sicrhau bod diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg yn cael eu gwreiddio'n briodol o fewn cynnig a chyrsiau'r cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â dysgu teuluol ar gyfer rhieni disgyblion uwchradd, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn caffael, yn datblygu ac yn cymhwyso medrau newydd ac yn cynhyrchu gwaith o safon briodol, o leiaf. Mae llawer o ddysgwyr ar draws y bartneriaeth yn ymgysylltu'n dda â'u cyrsiau. Maent yn gwella'u hunan-barch, eu hyder a'u cymhellion, a'u cyfleoedd cyflogaeth a chymdeithasol mewn llawer o achosion.

Mewn dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau Saesneg, ac yn cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus ar gyfraddau cadarn. Mae'r dysgwyr hyn yn elwa ar lwybrau dilyniant clir i'r lefel cwrs uwch nesaf. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cyswllt clir rhwng dysgu blaenorol a dysgu newydd. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau gwrando, darllen, ysgrifennu a siarad o'u mannau cychwyn. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu ystod eang o eirfa sy'n briodol i'w lefel, y maent yn ei defnyddio'n hyderus. Ar lefelau uwch, mae dysgwyr yn dangos eu dealltwriaeth ddyfnach o Saesneg trwy ddarllen testunau'n hyderus gyda goslef a thôn glir. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn defnyddio iaith ddamcaniaethu'n hyderus ac yn dangos eu dealltwriaeth o ddiwylliant Prydeinig, arlliw a normau cwrteisi trwy ddefnyddio mynegiannau yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau meddwl beirniadol ac yn eu cymhwyso'n dda i sefyllfaoedd newydd. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cyfrannu'n gadarnhaol ac yn rhyngweithio'n dda â'u tiwtoriaid a'u cyfoedion, ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth newydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mynychu cyrsiau i wella'u llythrennedd a'u rhifedd yn gwneud cynnydd cadarn. Mae gan lawer o ddysgwyr ffocws clir ar wella'u gallu i ddefnyddio llythrennedd a rhifedd yn eu bywydau personol i gefnogi a helpu eu plant â gwaith ysgol neu wella'u nodau cyflogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau i wella'u medrau llythrennedd digidol yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn. Mae llawer o ddysgwyr yn cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddyfeisiau digidol a phecynnau meddalwedd. Mae'r dysgwyr hyn yn cymhwyso gwybodaeth wedi'i chaffael yn ddiweddar yn dda wrth ymgymryd ag ystod o weithgareddau, er enghraifft wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd i gynnal sesiynau chwilio am swydd a bod yn ymwybodol o ddiogeledd a diogelwch wrth fynd ar y rhyngrwyd.

Mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau'n ymwneud â medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn datblygu ystod eang o fedrau a gwybodaeth newydd. Er enghraifft, mewn llythrennedd digidol, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth well o ddefnyddio dyfeisiau digidol, cymwysiadau meddalwedd a chadw'n ddiogel ar-lein. Mewn cwrs sydd wedi'i gynllunio i helpu rhieni i gynorthwyo'u plant sy'n sefyll arholiadau Blwyddyn 11 yn yr ysgol, mae rhieni'n dysgu am gynnwys a thasgau y mae angen i'w plant eu datblygu i lwyddo yn eu harholiad Saesneg Iaith TGAU. Mae rhieni'n defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i gael eu hysbysu'n well am gwricwlwm yr ysgol ac arholiadau. O ganlyniad i fynychu'r cyrsiau hyn, mae rhieni'n aml yn gwella'u gallu i roi cymorth ystyrlon i'w plant gartref, ac yn cryfhau perthnasoedd teuluol.

Mae cyrsiau Llwybrau yn helpu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i ddatblygu medrau newydd a gwella'u mwynhad o fywyd. Mae mwyafrif y dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol wedi cytuno ar nodau tymor hir sy'n aml ynglŷn â sicrhau cyflogaeth am dâl. Mae llawer o ddysgwyr ag anghenion ychwanegol yn siarad â hyder am eu profiadau dysgu ac yn rhoi enghreifftiau clir o'r medrau newydd y maent wedi'u datblygu a'r cynnydd y maent wedi'i wneud. Mae dysgwyr yn manteisio ar gyfleoedd lleoliad gwaith, lle bo'n briodol. Mae'r dysgwyr hyn yn ennill profiad gwerthfawr yn gysylltiedig â gwaith mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys siopau elusen lle maent yn datblygu medrau newydd yn prisio eitemau, yn delio â chwsmeriaid ac yn ateb galwadau ffôn. Mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol Llwybrau yn datblygu lefelau gwell o hyder a medrau newydd yn dda trwy weithio a chefnogi ei gilydd fel tîm, gan gofio'u llinellau a symudiadau llwyfan ar gyfer dramâu.

Mewn cyrsiau Llwybrau byw â chymorth, mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau bywyd. Maent yn datblygu ac yn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd trwy gyfrifo cost nwyddau groser, darllen a deall labeli, a dehongli cyfarwyddiadau coginio. Mae'r dysgwyr hyn yn datblygu eu medrau ymhellach trwy ymgymryd â gwaith crefft a dysgu am hanes a diwylliant Cymru. Maent hefyd yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau cymdeithasol wrth weithio gyda'u cyfoedion a'u tiwtoriaid.

Mae gan fwyafrif y dysgwyr gynlluniau dysgu unigol, sy'n nodi eu nodau a'u targedau cyffredinol cytunedig. Caiff y dogfennau hyn eu cwblhau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys yn electronig ac ar bapur. Mewn llawer o achosion, cânt eu defnyddio'n briodol i nodi a helpu dysgwyr i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella ac olrhain eu cynnydd. Mewn achosion eraill, yn aml wrth ymgymryd â chymwysterau ffurfiol, mae dysgwyr yn gwybod beth mae angen iddynt ei wella trwy adborth ysgrifenedig neu adborth llafar buddiol gan eu tiwtoriaid.

Mewn ychydig o sesiynau, mae dysgwyr yn defnyddio neu'n datblygu eu medrau Cymraeg. Mae hyn fel arfer yn achlysurol a thrwy gyfarchion a sgyrsiau â'u tiwtoriaid a'u cyfoedion. Mewn ychydig o ddosbarthiadau SSIE, mae dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o dermau Cymraeg bob dydd, fel cyfarchion a dyddiau'r wythnos.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae arweinwyr yn sôn am lefel uchel o foddhad â'u dosbarthiadau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos agweddau da iawn at ddysgu. Maent yn mwynhau eu dosbarthiadau, yn gwrando ac yn cymryd rhan, ac yn rhyngweithio'n dda â thiwtoriaid, aelodau staff eraill a'u cyfoedion. Maent yn helpu ei gilydd â thasgau ac yn barchus ac ystyriol o les pobl eraill. Mae llawer o ddysgwyr yn gweithio'n dda yn annibynnol, ac yn aml yn ymestyn eu dysgu gartref. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a saff yn eu hamgylcheddau dysgu. Pan gynhelir dosbarthiadau ar-lein, mae gan y darparwyr bolisïau ar waith ar gyfer dysgu digidol diogel. Mae darparwyr yn atgoffa dysgwyr am reolau sylfaenol ar gyfer bod ar-lein sy'n ymestyn o'r ystafell ddosbarth i'w bywydau bob dydd, er enghraifft wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Mae presenoldeb yn dda, ar y cyfan. Mae gan yr holl ddarparwyr strategaethau ar waith i ddelio â diffyg presenoldeb a dysgwyr sy'n cyrraedd yn hwyr. Pan mae gan ddysgwyr reswm cryf dros beidio â bod yn y dosbarth, mae darparwyr yn anfon

gwaith iddynt ei gwblhau neu'n trefnu sesiynau ychwanegol ar-lein. Mae darparwyr yn ystyriol o'r problemau sydd gan lawer o ddysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned ers y pandemig, ond maent yn awyddus o hyd i sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau, ennill cymhwyster a symud ymlaen i lefel neu weithgaredd arall, neu i weithio, lle bo'n briodol.

Yn dilyn y pandemig, mae llawer o ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, yn parhau i fod yn orbryderus, mae ganddynt broblemau iechyd meddwl, ac yn gynyddol, anawsterau ariannol. Maent yn nerfus ynglŷn â dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb a'u harferion mwy arferol. Mae'r bartneriaeth yn parhau i gynorthwyo dysgwyr yn dda yn eu gweithgareddau dysgu a gyda phroblemau ehangach sy'n effeithio ar eu datblygiad personol. O ganlyniad, mae dysgwyr yn dod yn fwy gwydn ac mae bron pob un ohonynt yn dyfalbarhau â'u gweithgareddau dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mynychu canolfannau dysgu teuluol yn datblygu dealltwriaeth well o anghenion dysgu eu plant a sut i'w cynorthwyo. Mae llawer o ddysgwyr sy'n mynychu sesiynau dysgu teuluol yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, a'u medrau digidol a chreadigol eu hunain ymhellach, ac maent yn aml yn datblygu awydd i fynd â'u dysgu eu hunain ymhellach. Dywed llawer o ddysgwyr sy'n mynychu grwpiau dysgu teuluol eu bod yn dysgu rhyngweithio â'u plant mewn ffyrdd cadarnhaol, gan wneud dysgu'n hwyl a chryfhau perthnasoedd teuluol.

Mae Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn gwella lles dysgwyr sydd angen medrau ar gyfer cyflogaeth, trwy eu cyfeirio at ddarpariaeth sy'n gweddu orau i'w hanghenion unigol. Mae rhyngweithio'r partner â phantrïau bwyd lleol wedi arwain at ddatblygu ryseitiau ar gyfer sut i wneud prydau bwyd blasus o'r cynnyrch sydd ar gael. Mae hyn yn hyrwyddo bwyta'n iach, yn ogystal â gallu'r dysgwyr i gyllidebu a gwneud y gorau o adnoddau sydd ar gael er budd eu teuluoedd. Mae partneriaethau Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr mewn cymunedau lleol wedi arwain at grwpiau cerdded lleol ar gyfer dysgwyr, sy'n gwella'u hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl ac yn meithrin ymdeimlad o gymuned.

Mae yna lawer o ddysgwyr nad oes ganddynt liniaduron na chysylltiad â'r rhyngrwyd. Mae'r bartneriaeth wedi parhau i gynorthwyo'r dysgwyr hyn trwy roi benthyg caledwedd a chefnogi eu cysylltiad â'r rhyngrwyd. Mae dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau ar-lein a grwpiau llythrennedd digidol yn datblygu medrau bywyd a mwy o hyder i ymdopi ag ymgymryd â llawer o weithgareddau angenrheidiol, fel trefnu apwyntiadau meddyg a bancio ar y we.

Mae'r bartneriaeth yn gofyn am farn dysgwyr yn rheolaidd, ac mae wedi gwrando ac ymateb yn brydlon i'w hawgrymiadau. O ganlyniad, mae darparwyr y bartneriaeth yn parhau i gynnig dysgu cyfunol a dosbarthiadau ar-lein yn ogystal â chyflwyno yn yr ystafell ddosbarth. Mae llawer o ddysgwyr sy'n parhau i gael eu gwarchod neu'n gofalu am bobl eraill yn manteisio'n dda ar y cynnig dysgu cyfunol a dysgu ar-lein i'w helpu i aros mewn dysgu a chymdeithasu. Mae'r cynnig hwn hefyd yn helpu dysgwyr sy'n gweithio neu sydd ag ymrwymiadau eraill i gadw cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, a pharhau i ddysgu. Dywed ychydig o diwtoriaid eu bod wedi ennill mewnwelediad gwell i amgylchiadau personol dysgwyr trwy sesiynau ar-lein na wnaethant mewn sefyllfa ystafell ddosbarth, a gallant gefnogi eu lles yn fwy effeithiol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r bartneriaeth yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i gynllunio cwricwlwm priodol y mae darparwyr yn ei fapio yn erbyn meysydd sector pwnc. Mae’r rhan fwyaf o’r rhaglenni o fewn y cynnig yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth llythrennedd, rhifedd, medrau digidol, SSIE, a chyflogadwyedd, a chânt eu nodi’n unol â hynny.

Mae’r cynnig cyflogadwyedd yn cynnwys dwy elfen amlwg, y mae un o’r rhain yn golygu cyrsiau byr yn benodol i gyflogadwyedd fel cymorth cyntaf, cyflwyniad i ddod yn gynorthwyydd addysgu, a hylendid bwyd. Yr ail elfen yw rhaglen Llwybrau, sef rhaglen ran-amser ar gyfer oedolion sy’n ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy’n anelu at symud ymlaen i astudio ymhellach neu i gyflogaeth. Mae’r bartneriaeth yn cynnig ychydig o gyrsiau llythrennedd a rhifedd defnyddiol iawn i rieni sydd eisiau cynorthwyo’u plant â’u gwaith ysgol, ac yn achos y sector uwchradd, paratoi ar gyfer arholiadau. Mae’r ddarpariaeth SSIE yn cynnwys ystod o gyrsiau amser llawn a rhan-amser o lefel mynediad trwodd i lefel 2. Fodd bynnag, nid oes digon o ddarpariaeth SSIE i fodloni’r galw cynyddol.

Mae’r bartneriaeth yn cynnig ychydig iawn o gyrsiau diddordeb personol, ond mae’n awyddus i ddatblygu’r maes hwn gan fod arweinwyr yn cydnabod bod y dull hwn yn cefnogi cyrraedd grwpiau targed, fel dysgwyr hŷn a dysgwyr sy’n fwy ynysig yn gymdeithasol. Fodd bynnag, ceir heriau sylweddol o ran recriwtio athrawon, sy’n cael effaith ar ddatblygu’r maes hwn a meysydd eraill y ddarpariaeth ymhellach.

Mae tiwtoriaid yn cyflwyno ychydig o gyrsiau ar-lein neu drwy ddull cyfunol; bydd hyn yn digwydd pan fydd dysgwyr yn mynegi ffafriaeth i ddysgu yn y modd hwn. O’r rhai sy’n gyfan gwbl ar-lein, mae’r mwyafrif yn rhaglenni iaith.

Yn ogystal â’r prif ddarparwyr, mae’r bartneriaeth yn gweithio gyda darparwr cyflogadwyedd sy’n anelu’n benodol at ymgysylltu â’r rhai sy’n wynebu rhwystrau rhag dysgu, fel unigolion â phroblemau iechyd meddwl, y rhai sy’n delio â chamddefnyddio sylweddau, a rhieni sengl. Mae’r rhaglenni hyn sy’n canolbwyntio ar gyflogaeth dan arweiniad y dysgwr yn niferus ac amrywiol, ac yn cynnwys cyfleoedd fel hyfforddiant cerbydau nwyddau trwm, deall ymddygiad cŵn, a chyfrifyddu.

Er nad yw’r bartneriaeth yn cyflwyno darpariaeth yn ddwyieithog na thrwy gyfrwng y Gymraeg, mae sefydliad Cymraeg yn cynnal cyswllt â’r bartneriaeth trwy ddarparu rhaglenni rhagflas byr yn Gymraeg, yn ogystal â chyrsiau iaith cychwynnol trwy gydol y flwyddyn ar bob lefel.

I leihau dyblygu, mae partneriaid yn cyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth arall ar draws y bartneriaeth, lle bo’n briodol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni chaiff atgyfeiriadau ar draws darparwyr eu holrhain yn ffurfiol, neu nid oes trefn ar waith i fapio llwybrau dilyniant.

Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio eu gwersi’n dda gan roi ystyriaeth briodol i ddeilliannau yn canolbwyntio ar y dysgwr. Er enghraifft, wrth reoli gwers ar orbryder, mae’r athro’n trafod strategaethau y gall dysgwyr eu cymhwyso i’w sefyllfaoedd personol penodol sy’n cynnwys heriau yn y gweithle a heriau cymdeithasol.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae tiwtoriaid yn trefnu tasgau’n effeithiol trwy rannu amcanion, gan roi cyfarwyddiadau clir a gwirio dealltwriaeth dysgwyr. Mae tiwtoriaid a staff cymorth yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i gynorthwyo dysgwyr, a rhoi cyfarwyddyd iddynt. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn achos cyrsiau Llwybrau. Yn y

grwpiau hyn, mae medrau a galluoedd dysgwyr yn amrywio'n sylweddol, ac mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod o strategaethau addas i ddiwallu anghenion dysgu unigol. Mewn sesiwn Llwybr i Gefn Gwlad a Hamdden, mae'r tiwtor yn cynllunio'n effeithiol i roi dewis o weithgareddau i ddysgwyr sydd angen gwahanol lefelau medrau a graddau amrywiol o her.

Mewn llawer o sesiynau, mae tiwtoriaid yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau cyfoes a gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr a'u herio. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cyflwyno yn bersonoledig ac ystyrlon, ac mae tiwtoriaid yn rhoi digonedd o gyfleoedd i ddysgwyr ddod â'u profiadau i sesiynau. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn annog dysgwyr i rannu sut gallent gymhwyso'u dysgu i'w bywydau cartref a gwaith. Er enghraifft, ar raglen Llwybrau, mae'r tiwtor yn gofyn i ddysgwyr awgrymu sut gallent gymhwyso ymddygiadau coleg i'w sefyllfaoedd gweithio. Mewn sesiwn cyflogadwyedd TG, mae'r tiwtor yn gweithio gyda dysgwyr i'w harfogi â'r medrau sydd eu hangen i greu curriculum vitae ac ymgymryd â gweithgareddau ystyrlon chwilio am swydd.

Mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod o fecanweithiau gosod targedau ac adborth yn dda, sy'n cynnwys olrhain cynlluniau dysgu unigol (CDUau) ffurfiol ar blatfform rhithwir, rhestrau wedi'u hargraffu, adborth ar waith wedi'i farcio, a thargedau wedi'u cofnodi gan ddysgwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r targedau hyn yn unigoledig ac wedi'u creu i fynd i'r afael ag anghenion penodol.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn galonogol a chefnogol, yn barod i ganmol, ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau dysgwyr. Mae'n amlwg fod tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn sensitif i'w hanghenion a'r heriau y gallent fod yn eu hwynebu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan y bartneriaeth bolisïau a strategaethau manwl ar waith i gynorthwyo dysgwyr trwy gydol eu teithiau dysgu. Mae gan y rhan fwyaf o bartneriaid systemau effeithiol i nodi, gwirio a monitro cymorth, lles a phatrymau presenoldeb dysgwyr. Fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth ei defnyddio'n ddigon da gan y bartneriaeth i fonitro patrymau presenoldeb unigol a lles.

Ar draws y bartneriaeth, ceir prosesau atgyfeirio effeithlon, o sefydliadau allanol i bartneriaid unigol. Mae'r rhain yn helpu dysgwyr i fanteisio ar ddarpariaeth sy'n briodol i'w diddordebau a'u hanghenion dysgu. Er enghraifft, caiff partneriaid atgyfeiriadau gan wasanaethau cymdeithasol, y Ganolfan Byd Gwaith ac ystod o wasanaethau cymorth arbenigol a sefydliadau'r trydydd sector.

Mae bron pob tiwtor yn ymwybodol o anghenion dysgwyr, ac maent yn darparu cymorth priodol. Mae Addysg Oedolion Cymru a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig cyfres newydd o ddosbarthiadau i gefnogi lles, fel rheoli gorbryder a straen a medrau ar gyfer bywyd a gwaith. Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a Choleg Pen-y-bont yn darparu cymorth cynhwysfawr defnyddiol i ddysgwyr mewn grwpiau SSIE, medrau byw yn annibynnol a medrau hanfodol. Mae rhaglen Llwybrau yn cynnig ystod o weithgareddau y gall dysgwyr ennill medrau trwyddynt a gwella ansawdd eu bywyd a'u diddordebau personol. Er bod y rhan fwyaf o'r cyrsiau a ddarperir gan y bartneriaeth mewn meysydd dysgu traddodiadol, mae cynnwys y cwrs yn aml yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu medrau creadigol. Mae cyrsiau fel rheoli straen yn apelio at bobl o amrywiaeth o gefndiroedd a chyflawniad addysgol. Maent yn rhoi'r

offer i ddysgwyr ddelio ag amrywiaeth o faterion, a'r cyfle i gyfarfod â'i gilydd, gwneud ffrindiau newydd, a chyfrannu at les ei gilydd.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn ystyried ymrwymiadau dysgwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a allai eu rhwystro rhag dysgu neu'u hatal rhag mynychu'n rheolaidd, fel apwyntiadau meddygol a phatrymau sifftiau gwaith. Yn yr enghreifftiau gorau, mae tiwtoriaid yn lanlwytho gwaith i ddysgwyr ei gwblhau ar blatfform ar-lein. Mae canolfannau galw i mewn digidol wedi'u lleoli'n dda ledled y sir, mewn lleoliadau cymunedol, llyfrgell a chlwb rygbi, lle gall dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr fanteisio ar gymorth a chyngor digidol un i un ar fedrau digidol. Mae bron pob un o'r rhaglenni dysgu yn gweithredu mewn modd hyblyg, ac mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r ffyrdd y mae darparwyr yn darparu ar gyfer eu hanghenion.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn darparu cyngor ac arweiniad diduedd, ar ddechrau cyrsiau, a thrwy gydol cyrsiau. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd yn eu dysgu, eu cyflogaeth a'u bywydau personol. Fodd bynnag, ar gyrsiau rhan-amser, nid yw pob un o'r dysgwyr yn gallu cael gwybodaeth yn hawdd am wasanaethau cymorth ehangach sydd ar gael iddynt. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn hyrwyddo dewisiadau am ffyrdd iach o fyw, a phwysigrwydd ymarfer corff, i gefnogi iechyd a lles dysgwyr. Mewn dosbarth iechyd a lles Llwybrau, lle mae dysgwyr yn gweithio tuag at gymhwyster mewn hyrwyddo byw yn iach, mae dysgwyr yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o weithgareddau a fydd yn arwain at iechyd gwell, elfennau diet iach, a ffyrdd o ymdopi â sefyllfaoedd sy'n achosi straen.

Mae gan bron bob un o'r partneriaid wybodaeth ddefnyddiol a phriodol ar gyfer dysgwyr. O ganlyniad i lais y dysgwr, mae darparwyr bellach yn hysbysu dysgwyr yn well am y broses gofrestru hefyd, er enghraifft rhoi diweddariadau iddynt am gyrsiau, yn dilyn eu cais cychwynnol. Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau dwyieithog, copïau caled o bamffledi, gwefannau partneriaid unigol ac ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod angen creu strategaeth farchnata i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cael eu recriwtio. Mae bron pob un o'r partneriaid yn creu llawlyfrau ymsefydlu i ddysgwyr a thudalennau gwefannau sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol a chynhwysfawr wedi i ddysgwyr gofrestru. Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar iechyd a diogelwch, diogelu, cyfle i gael cymorth ariannol, beth allai dysgwyr ei ddisgwyl o'u cwrs, a chysylltiadau â sefydliadau cymorth allanol.

Caiff llawer o ddysgwyr gyfleoedd i rannu gwybodaeth am eu diwylliannau eu hunain. Maent yn datblygu dealltwriaeth o'r cymunedau lleol y maent yn byw ynddynt, yn ogystal â'r byd ehangach. Mewn cyrsiau SSIE, caiff dysgwyr eu hannog i ddefnyddio Saesneg i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau dathliadol arbennig yn eu gwledydd eu hunain, a rhoddir cyfleoedd iddynt gymysgu â dysgwyr prif ffrwd mewn digwyddiadau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd. Mae dysgwyr SSIE hefyd yn mynd ar ymweliadau addysgol â lleoedd sy'n arddangos treftadaeth Gymreig, er enghraifft Amgueddfa Sain Ffagan. Mae hyn yn helpu datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru a'i diwylliant. Ar gwrs Llwybrau at iechyd a lles, mae dysgwyr yn mynychu lleoliadau gwaith a lleoliadau gwirfoddol, lle gallant roi medrau cyflogadwyedd ar waith. Mae'r bartneriaeth yn enwebu dysgwyr ar gyfer gwobrau blynyddol cenedlaethol Ysbrydoli (Inspire), er nad yw'r bartneriaeth yn dathlu llwyddiant a chyflawniad dysgwyr ar lefel sirol a hyn o bryd.

Mae bron pob un o’r darparwyr yn olrhain a monitro cynnydd dysgwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, mae’n ddyddiau cynnar o ran olrhain cynnydd dysgwyr ar draws y bartneriaeth mewn modd trosfwaol. Nid oes gan y bartneriaeth system i gofnodi a mesur symudiadau dysgwyr ar draws lefelau, na rhyngddynt, ac ni all gofnodi data ar ddysgwyr sy’n symud ymlaen i ddysgu pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae’r bartneriaeth wedi creu dogfennau llwybrau dilyniant newydd a defnyddiol i’r cwricwlwm mewn rhai meysydd pwnc. Mae’r rhain yn mapio ystod a lefel y cyrsiau a gyflwynir ar draws y bartneriaeth.

Mae trefniadau’r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni’r gofynion, ac nid ydynt yn peri pryder. Mae gan bartneriaid unigol arferion recriwtio diogel, ac mae staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu a radicaleiddio. Caiff bron pob un o’r dysgwyr eu haddysgu am beryglon radicaleiddio ac eithafiaeth.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y partneriaid ym Mhartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr berthynas weithio gadarnhaol. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi adolygu strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth y bartneriaeth. O ganlyniad, mae’r bartneriaeth wedi datblygu cylch gorchwyl ac amserlenni cyfarfodydd newydd ar gyfer ei phrif grwpiau a’i his-grwpiau, sy’n caniatáu ar gyfer mynd i’r afael â materion a’u monitro mewn ffordd amserol.

Mae gan y bartneriaeth ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, fel yr ymdrech i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. I’r perwyl hwn, mae’r bartneriaeth wrthi’n cael trafodaethau â phartneriaethau dysgu oedolion sy’n ffinio â Phen-y-bont ar Ogwr i asesu hyfywedd cydgyfrannu adnoddau i roi mwy o ddewis i ddysgwyr a lleihau dyblygu diangen. Mae gan y bartneriaeth gynghreiriau defnyddiol â darparwyr eraill, er enghraifft Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO), y mae’n gweithio gyda nhw i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr. Mae’r pandemig wedi amlygu llawer o anghenion lles dysgwyr, fyddai heb gael eu sylwi o’r blaen efallai, ond sydd wedi bod yno erioed. Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi datblygu polisi lles arloesol ar ddysgu oedolion sy’n rhoi ystyriaeth i ddogfennau polisi cenedlaethol, fel Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol, ac, mewn partneriaeth â MIND, y GIG a’r Sefydliad Economeg Newydd, mae wedi’i seilio ei ymagwedd at ddysgu oedolion ar ‘bum ffordd at les’. Mae’r polisi hwn yn ategu ymagwedd at ddysgu oedolion sy’n cynorthwyo oedolion i aros yn egnïol, aros yn dysgu a gofalu amdanyn nhw eu hunain a phobl eraill. Mae’r cynllun hwn wrthi’n mynd trwy brosesau cymeradwyo’r Cyngor ar hyn o bryd, ond mae eisoes yn cael ei beilota fel y sylfaen ar gyfer sut bydd dysgu oedolion yn cael ei ddatblygu yn yr ardal.

Mae gan y bartneriaeth ddealltwriaeth dda o’i gwaith, ei llwyddiannau a’i meysydd i’w gwella, ac mae’n onest ac agored yn ei hasesiad ei hun. Mae’r bartneriaeth yn cydnabod bod angen mynd i’r afael ag effaith y pandemig a newidiadau mewn amgylchiadau economaidd, fel datblygu strategaethau i gynyddu niferoedd y dysgwyr. Mae wedi adolygu ystod eang o dystiolaeth. Mae’r bartneriaeth yn cofnodi ei chryfderau’n glir ac wedi rhoi camau cynyddrannol ar waith i fynd i’r afael â meysydd i’w gwella trwyddynt. Mae’r cynllun gwella ansawdd yn canolbwyntio’n dda ar y materion a nodwyd gan y bartneriaeth. Mae’r cynllun yn cynnwys cerrig milltir pan fydd yn asesu cynnydd; er enghraifft, mae’r bartneriaeth yn datblygu ffyrdd

newydd o ymgysylltu â dysgwyr a gwella cyfraddau llwyddiant mewn meysydd a nodwyd.

Mae gan y darparwyr unigol ym Mhartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr brosesau sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau ansawdd yr addysgu, y dysgu, y ddarpariaeth a'r cymorth i ddysgwyr y maent yn eu darparu. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu darpariaeth. Fodd bynnag, mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod angen sefydlu mecanweithiau sicrhau ansawdd ar draws y bartneriaeth i sicrhau cyfle a phrofiad teg i ddysgwyr.

Mae tiwtoriaid sy'n gweithio i Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr yn meddu ar gymwysterau da ac maent yn wybodus am eu pynciau. Mae'r bartneriaeth yn cynnig sesiynau datblygiad proffesiynol rheolaidd ar-lein, sy'n para awr, i'r holl diwtoriaid ar draws y bartneriaeth. Mantais hyn yw ei fod yn gadael i diwtoriaid rannu arferion â'i gilydd, ac yn lleihau'r angen i deithio i sesiwn. Mae'r hyfforddiant a dderbyniodd tiwtoriaid wedi helpu llawer ohonynt i fagu hyder mewn addysgu â thechnoleg a gallu cymhwyso'r medrau hyn i addysgu ar-lein yn gyfan gwbl neu drwy ddosbarthiadau 'hybrid'; hynny yw, rhai dysgwyr yn mynychu yn yr ystafell ddosbarth a dysgwyr eraill yn cymryd rhan ar-lein. Mae'r bartneriaeth wedi darparu hyfforddiant i'r holl diwtoriaid gefnogi lles dysgwyr, ac mae yna staff dynodedig sy'n gweithredu fel hyrwyddwyr lles.

Mae partneriaid Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr yn cynllunio ac yn defnyddio eu ffrydiau cyllid unigol yn dda i ddiwallu anghenion a dyheadau dysgwyr. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi cytuno ar gynnig ar y cyd am gyllid i gefnogi datblygiad dysgwyr mewn rhifedd a mathemateg, gyda phob partner yn darparu ar gyfer anghenion, medrau a lefelau penodol.

Mae gan Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr ystod eang o leoliadau. Mae llawer ohonynt wedi'u lleoli'n agos at ganol y dref neu wedi'u lleoli tuag at ogledd a dwyrain y sir mewn cymunedau lleol. Mae hyn yn caniatáu mynediad hawdd i ddosbarthiadau i lawer o ddysgwyr. At ei gilydd, mae gan bob lleoliad gyfarpar da at ddefnydd gan oedolion, ac maent wedi'u goleuo'n dda, yn hygyrch, ac yn groesawgar.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i ddysgwyr a’r holiadur i staff

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, llywodraethwyr (lle bo’n briodol), uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau’r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  07/06/2023